**Canllaw Datrys Problemau ar gyfer Dechrau Galwad Fideo gyda'ch ymgynghorydd:**

Bydd angen y canlynol arnoch:

- **Y ddolen gywir ar gyfer Ardal Aros eich apwyntiad, a roddwyd i chi gyda'ch gwybodaeth am apwyntiad, a ddefnyddiwyd ar adeg eich apwyntiad.**
- **Porwr gwe cydnaws - gweler yr adran isod am fanylion**
- **Camera a meicroffon wedi'u cysylltu a'u galluogi yn y porwr**

## <u>Y ddolen ar gyfer Ardal Aros eich apwyntiad</u>

Sicrhewch eich bod yn rhoi'r ddolen a roddir i chi'n gywir ac nad ydych yn caniatáu i'ch porwr gwblhau'r cyfeiriad anghywir yn awtomatig nac i chwilio am y ddolen (nid yw'r dolenni wedi'u mynegeio ar beiriannau chwilio ac nid eir â chi i'r ardal aros o beiriant chwilio)




e.e. o'r olwg wrth fewngofnodi'r testun eich hun – dewiswch yr opsiwn gorau i lywio i'r ddolen, yn hytrach na chwilio amdani.




Dyma'r hyn y dylech ei weld (gallwch hefyd wirio enw'r ardal aros yma)




Mae cleifion yn aml yn dweud eu bod yn cyrraedd y dudalen hon ar gyfer y ddolen (dyma'r canlyniad chwilio mwyaf cyffredin ar ôl 'chwilio' am y ddolen a pheidio â llywio iddi'n uniongyrchol).

Bydd angen defnyddio'r ddolen ar adeg eich apwyntiad, gan nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymweliadau galw heibio ac na fydd ymuno â galwad y tu allan i'ch amser apwyntiad yn golygu y bydd eich meddyg ymgynghorol yn ateb eich galwad.

**<u>Porwyr gwe cydnaws</u>**

| **Windows** | **Android** | **iPhone/iPad** | **Mac** | **Linux** |
|---|---|---|---|---|
| Chrome | Chrome | Safari | Safari | Chrome/Cromiwm |
| Edge (v79+) | | | Chrome | Firefox |
| Firefox | | | | |
| Opera | | | | |

**<u>Porwyr y gwyddys eu bod yn anghydnaws</u>**

| **Windows** | **Android** | **iPhone/iPad** |
|---|---|---|
| Internet Explorer | Porwr Samsung | Chrome |
| | Firefox | Porwr Blackberry Access |
| | Opera | |
| | Edge | |
| | Mwy na thebyg pob porwr ac eithrio Chrome | |

